# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Hydref 2025

Amser: 10.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid

## Cyfarfod cyhoeddus

(10.45 - 11.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.45)

## 2 Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

(10.45 - 11.30) (I ddilyn)

Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad y Polisi

Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Ben Henriques, Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Amira Evans, Pennaeth Cydraddoldeb, Llywodraeth Cymru

Jane Peffers, Pennaeth Polisi Iaith Arwyddion Prydain, Llywodraeth Cymru

Mae dehongliad Iaith Arwyddion Prydain ar gael ar Senedd.tv

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 – Papur 1 – Papur briffio

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau a ganlyn: 4, 11 ac 12

## Cyfarfod preifat

(11.30 – 11.45)

## 4 Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(11.30 – 11.45)

## Egwyl

(11.45 – 12.30)

## Cyfarfod cyhoeddus

(12.30 – 14.50)

## 5 Y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru

(12.30 – 13.25) (I ddilyn)

Mark Hand, Cyfarwyddwr Cymru, Gogledd Iwerddon a Cymorth Cynllunio Lloegr, Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru

Rhian Brimble, Swyddog Polisi (Cymru), Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 – Papur 2 – Papur briffio

## Egwyl

(13.25 – 13.30)

## 6 Y Bil Cynllunio (Cymru) a’r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd

(13.30 – 14.25) (I ddilyn)

Annabel Graham Paul, Chymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 – Papur 3 – Papur Briffio

## Egwyl

(14.25 – 14.30)

## 7 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.30 – 14.35)

**Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**7.1 SL(6)650 – Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru) 2025**

(Tudalennau 1 – 2)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 – Papur 4 – Adroddiad drafft

**7.2 SL(6)651 – Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025**

(Tudalennau 3 – 5)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 – Papur 5 – Adroddiad drafft

**7.3 SL(6)652 – Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025**

(Tudalennau 6 – 7)

[Rheoliadau]

[Memorandwm Esboniadol]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 - Papur 6 – Adroddiad drafft

## 8 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(14.35 - 14.40)

### 8.1 SL(6)645 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2025

(Tudalennau 8 - 13)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 - Papur 7 – Adroddiad

LJC(6)-27-25 - Papur 8 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 9 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.40 - 14.45)

## 10 Papurau i'w nodi

(14.45 - 14.50)

### 10.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Goblygiadau ariannol y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)

(Tudalennau 14 - 15)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 - Papur 9 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Medi 2025

**10.2 Gohebiaeth at y Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona**

(Tudalennau 16 - 17)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 - Papur 10 - Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, 29 Medi 2025

**10.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd Meddwl**

(Tudalennau 18 - 21)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 - Papur 11 - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6)

**10.4 Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru er mwyn rhoi mesurau ychwanegol ar waith i warchod afancod Ewropeaidd (ffibr castor) yng Nghymru**

(Tudalennau 22 - 23)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 - Papur 12 - Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 2 Hydref 2025

**10.5 Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion: Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 a'r canllawiau statudol cysylltiedig**

(Tudalennau 24 - 25)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 - Papur 13 - Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 2 Hydref 2025

**10.6 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Gwaith dilynol ynghylch craffu cyffredinol**

(Tudalennau 26 - 38)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 - Papur 14 - Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 2 Hydref 2025

## Cyfarfod preifat

(14.50 - 15.15)

## 11 Y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(14.50 - 15.10)

## 12 Cytundebau Rhyngwladol: Adroddiad drafft

(15.10 - 15.15) (Tudalennau 39 - 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-27-25 - Papur 15 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

# SL(6)650 – Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Gwneir Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Cymru) 2025 ("y Rheoliadau") drwy ddefnyddio pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ac maent yn darparu ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yn fandadol ac adrodd am eu prisiau yn fandadol gan ladd-dai cymeradwy mwy o faint (lladd-dai rheoleiddiedig sy'n lladd o leiaf 2,000 o ddefaid yr wythnos ar gyfartaledd). Ar hyn o bryd mae pedwar lladd-dy yng Nghymru a fyddai'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn darparu y bydd y Rheoliadau yn sicrhau bod y farchnad defaid yn gweithredu gyda mwy o dryloywder fel y bydd cynhyrchwyr yn deall a ydynt yn derbyn pris teg am eu hanifeiliaid a laddwyd. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro bod cynlluniau gorfodol ar gyfer dosbarthu carcasau ac adrodd am brisiau wedi bod ar waith yn y sectorau cig eidion a phorc ers blynyddoedd lawer. Bwriad cyflwyno cynllun gorfodol ar gyfer y sector defaid yw sicrhau bod y sector defaid yn cyd-fynd mor agos â phosibl â'r sectorau hynny.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu yn unol â deddfwriaeth debyg sydd eisoes wedi'i chyflwyno gan DEFRA yn Lloegr a'r rhai sy'n cael eu hystyried yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr ei destun Cymraeg a'i destun Saesneg.**

Yn rheoliad 2 (dehongli), yn lle ystyr "*carcass*" yn y testun Saesneg, mae'r Rheoliadau'n cyfeirio'n gywir at "*Annex 2*" i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2019/627 dyddiedig 15 Mawrth 2019. Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "*Atodlen 2*" sy'n cyfieithu fel "Schedule 2", ac felly mae ystyr gwahanol rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Y term cywir i'w ddefnyddio ar gyfer "Annex" yw "Atodiad", yn unol â TermCymru.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 4 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn darparu'r canlynol:

> *Gwnaed Rheoliadau Carcasau Defaid (Dosbarthu ac Adrodd am Brisiau) (Lloegr) 2025 ("Rheoliadau Lloegr") ar 9 Gorffennaf 2025 a bydd rheoliadau Cymru yn cael effaith ymarferol ar yr un dyddiad â Rheoliadau Lloegr i sicrhau parhad ar draws y ddwy wlad.*

Y dyddiad dod i rym ar gyfer y Rheoliadau hyn yw 28 Ionawr 2026, sy'n hwyrach na'r dyddiad y daw Rheoliadau Lloegr i rym, sef 12 Ionawr 2026 (yn amodol ar eithriadau a bennir yn rheoliad 1(3)). Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym bythefnos ar ôl Rheoliadau Lloegr.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Tynnodd adroddiad y Pwyllgor hwn ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) (bellach Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023) sylw at bryderon ynghylch darpariaethau sy'n ymgysylltu â'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol a sefydlwyd gan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio a fydd effeithiolrwydd unrhyw un o'r darpariaethau yn y Rheoliadau hyn yng Nghymru yn dibynnu ar, neu'n cael ei effeithio gan, unrhyw un o ofynion Deddf Marchnad Fewnol y DU.

Nid yw Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru i'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Marchnad Fewnol y DU ond mae'n cyfeirio at sicrhau "*parhad ar draws y ddwy wlad*" (Cymru a Lloegr). Pa asesiad, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r sefyllfa ddeddfwriaethol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn perthynas â dosbarthu ac adrodd am brisiau carcasau defaid, a'r effaith y gallai unrhyw wahaniaeth mewn rheoliadau cyfatebol ei chael ar effaith y Rheoliadau hyn yng Nghymru?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**1 Hydref 2025**

# SL(6)651 - Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi, at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y pôl ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026, swyddi y mae eu deiliaid wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Mae'r swyddi wedi eu disgrifio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae swyddi eraill sy'n anghymhwyso a chategorïau o bersonau sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ac mewn rhai achosion rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd) wedi eu rhagnodi gan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ac Atodlen 1A iddi. Dylai'r Gorchymyn hwn gael ei ddarllen gyda'r darpariaethau hynny.

Cyn pob etholiad i'r Senedd, gwneir Gorchymyn Anghymhwyso newydd sy'n dirymu'r Gorchymyn blaenorol ac yn nodi rhestr newydd o swyddi sy'n anghymhwyso. Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (O.S. 2020/1255), er bod y Gorchymyn hwnnw yn parhau i gael effaith ar gyfer etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y pôl cyn 6 Ebrill 2026.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni chaniateir i Ei Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor wneud Gorchymyn o'r fath oni bai bod drafft o'r Gorchymyn wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn hwn yn nodi bod y meini prawf ar gyfer pennu'r swyddi sydd i'w hanghymhwyso yn deillio o ragflaenydd i argymhellion y

Pwyllgor hwn yn 2014, yn sgil ei ymchwiliad i'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd.  Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"Yn 2014, cynhaliodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ymchwiliad i'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Senedd. Roedd yr ymchwiliad hwnnw yn cynnwys 21 o argymhellion ac yn cynnig trawsnewid y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Senedd. Cytunodd Llywodraeth Cymru â phrif fyrdwn adroddiad y Pwyllgor.*
>
> *Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015, ac yn sgil ymgynghori ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025 ("Gorchymyn 2025"), rydym wedi parhau i anrhydeddu'r ymrwymiad hwnnw.*
>
> *Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Orchymyn 2025 rhwng 30 Mai 2025 a 25 Gorffennaf 2025, ac mae'r Gorchymyn drafft yn rhoi sylw i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.*
>
> *Roedd y meini prawf ar gyfer pennu pa swyddi a oedd i'w cynnwys yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor, gan gynnwys rhai ystyriaethau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.*
>
> *Mae'r un egwyddorion wedi parhau i gael eu cymhwyso wrth ystyried y swyddi i'w cynnwys yng Ngorchymyn 2025. Cyhoeddwyd y meini prawf a'r egwyddorion yn ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar Orchymyn 2025."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

O ganlyniad i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 30 Mai 2025 a 25 Gorffennaf 2025, mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhestru'r swyddi canlynol sydd wedi cael eu hychwanegu at y Gorchymyn drafft fel swyddi anghymwys:

- Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru

*Y swyddi sy'n anghymhwyso:  Cadeirydd, aelod amaethyddiaeth annibynnol ac aelod addysg annibynnol, a benodir gan Weinidogion Cymru*

- Comisiynydd y Lluoedd Arfog

*Y swyddi sy'n anghymhwyso:  Comisiynydd*

- Pwyllgor Newid Hinsawdd

*Y swyddi sy'n anghymhwyso:  Yr holl Aelodau*

- Cynghorau Cymuned a Thref

*Y swyddi sy'n anghymhwyso: swyddog taledig sy'n gyfrifol, at ddibenion adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, am weinyddu materion ariannol y cyngor cymuned; person sy'n dal swydd daledig y mae'r cyngor cymuned yn ei phennu am y tro cyntaf yn y rhestr a gynhelir yn unol ag is-adran (2) ac unrhyw gyfarwyddydau o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*

- Cyd-bwyllgorau Corfforedig

*Y swyddi sy'n anghymhwyso: Yr holl aelodau*

- Y Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol

*Y swyddi sy'n anghymhwyso: Yr holl aelodau*

- Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru

*Y swyddi sy'n anghymhwyso: Comisiynydd*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**1 Hydref 2025**

# SL(6)652 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y Prif Reoliadau") yn nodi'r ffordd y caiff pryderon ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, neu o dan drefniadau gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, eu hystyried.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau er mwyn:

- diwygio'r egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i ydrin ac ymchwilio i bryderon er mwyn sicrhau bod y person sy'n hysbysu pryder yn cael gwybod am gynnydd, i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl, drwy'r dull cyfathrebu a ffefrir ac mewn modd y gall ei ddeall;
- ehangu'r rhestr o faterion sy'n ymwneud â'r ymchwiliad y mae'n rhaid eu trafod gyda'r person sy'n hysbysu pryder, gan gynnwys pa ddatrysiad y mae'n gobeithio ei gyflawni;
- cynyddu'r digollediad ariannol y gellir ei gynnig o dan y Prif Reoliadau o £25,000 i £50,000;
- diffinio gweithdrefn datrys yn gynnar sy'n galluogi'r partïon i ddatrys pryder cyn dechrau ymchwiliad llawn;
- darparu bod y person sy'n hysbysu pryder yn cael cynnig cyfle i drafod yr adroddiad wyneb yn wyneb, ar ôl i'r mater gael ei ymchwilio ac adrodd arno;
- diwygio'r amserlenni ar gyfer yr elfennau a ganlyn o'r trefniadau gwneud iawn:
  - cyfnewid gwybodaeth rhwng darparwyr gofal iechyd os yw'r pryder yn ymwneud â gofal a ddarperir gan fwy nag un corff GIG Cymru, darparwr gofal sylfaenol neu ddarparwr annibynnol;
  - llunio adroddiad ar ymchwiliad;
  - cyfathrebu'r penderfyniad ynghylch a ddylid cynnig iawn;
- eithrio rhag cwmpas y trefniadau gwneud iawn, bryderon:
  - yr ystyrir eu bod yn flinderus neu'n wamal; neu
  - yr ymdrinnir â hwy o dan y weithdrefn datrys yn gynnar sydd newydd ei diffinio;
- newid y gofynion monitro ac adrodd blynyddol a osodir ar gyrff cyfrifol o dan y Prif Reoliadau.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr ei destun Cymraeg a'i destun Saesneg**

Mae rheoliad 12 yn mewnosod rheoliad 22A newydd yn y Prif Reoliadau. Yng ngeiriau agoriadol rheoliad newydd 22A(4), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn defnyddio'r geiriau "has attempted resolution during the early resolution period" ond yr ystyr a roddir yn y testun Cymraeg yw "wedi ceisio datrys y pryder yn ystod y cyfnod datrys yn gynnar".

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**1 Hydref 2025**

# SL(6)645 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a diben

O dan adran 303 o'r *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*, caiff Gweinidogion Cymru ragnodi ffioedd neu daliadau mewn cysylltiad â swyddogaethau cynllunio.

Mae manylion categorïau ffioedd ar gyfer ceisiadau cynllunio yn y *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015* ("**Rheoliadau 2015**").

Mae'r Memorandwm Esboniadol ("**y Memorandwm**") yn egluro mai bwriad ffioedd o'r fath yw adennill costau darparu'r swyddogaethau rheoli datblygu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae'n egluro ymhellach nad yw cynnydd mewn ffioedd wedi cadw i fyny â chwyddiant na chost uniongyrchol prosesu ceisiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn ("**Rheoliadau 2025**") yn diwygio Rheoliadau 2015. Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm:

> *Diben y ddeddfwriaeth hon yw gwneud darpariaeth a fydd yn caniatáu i'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r diffyg presennol rhwng cost penderfynu ar geisiadau a'r incwm a geir am ddarparu'r gwasanaeth hwn drwy wneud darpariaeth ar gyfer system decach, fwy effeithiol a mwy effeithlon o ddiweddaru a rhoi cyhoeddusrwydd i ffioedd.*

Effaith Rheoliadau 2025 yw bod y categorïau a'r strwythur o ffioedd sefydledig presennol a nodir yn Rheoliadau 2015 (fel y'u diwygiwyd) yn cael eu cadw, ond bod unrhyw werthoedd ariannol a briodolir iddynt yn cael eu dileu a byddant yn cael eu cyhoeddi o hyn ymlaen, ymhlith gwybodaeth arall, mewn Dogfen Ffioedd gan Weinidogion Cymru.

Mae Dogfen Ffioedd enghreifftiol sy'n cynnwys "y ffi arfaethedig ar gyfer pob categori" wedi'i chynnwys yn Atodiad A i'r Memorandwm Esboniadol. Mae ymwadiad yn nodi y gallai fod yn destun "mân ddiweddariadau".

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Mae'r pum pwynt canlynol wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(3), yn y rheoliad newydd 2ZA(2)(e), disgrifir y cyfeiriad yn anghywir fel "paragraffau (a), (c) ac (d)". Fodd bynnag, dylid disgrifio'r cyfeiriad fel "*is-baragraffau (a), (c) ac (d)*" oherwydd eu bod yn adrannau o baragraff (2) yn y rheoliad 2ZA newydd. Mae hefyd yn golygu bod y disgrifiad yn anghyson â'r hyn a geir yn rheoliad 2ZA(4) lle disgrifir rhaniadau tebyg yn gywir fel "is-baragraffau (a) i (j) isod" wrth gyfeirio at raniadau paragraff (4) yn y rheoliad 2ZA newydd.

2. **Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 2(3), yn y rheoliad newydd 2ZA(4)(g), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a Chymraeg. Yn y testun Saesneg, rhestrir y ddarpariaeth fel "*regulation 15(1)(a) and (b) (fees for applications made under planning condition);*". Fodd bynnag, y ddarpariaeth a restrir gan y testun Cymraeg yw "*rheoliad 15(1)(a) a (b) (ffioedd am geisiadau a wneir o dan amod cynllunio) a Rhan 2 o Atodlen 1 (graddfa ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a wnaed neu y tybir iddynt gael eu gwneud);*". Felly, mae darpariaeth ychwanegol wedi'i rhestru yn nhestun Cymraeg y rheoliad newydd 2ZA(4)(g) nad yw i'w chael yn y testun Saesneg.

3. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 3(9)(e)(i) a (ii), disgrifir y lleoliadau ar gyfer y gwelliannau testunol yn anghywir fel "yn is-baragraff (a)" ac "yn is-baragraff (b)" yn y drefn honno. Fodd bynnag, dylid disgrifio'r lleoliadau "ym mharagraff (a)" ac "ym mharagraff (b)" oherwydd eu bod yn adrannau o is-baragraff (3) ym mharagraff 5A o Ran 1 o Atodlen 1 i Reoliadau 2015.

4. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 3(10)(c), ymddengys nad yw'r gwelliant yn cyflawni ei effaith fwriadedig yn nhestun Cymraeg categori 9(b) yn y golofn "ffi daladwy" o'r Tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2015.

Mae hyn oherwydd bod yr ymadrodd "*subject to a maximum in total*" wedi'i fynegi fel "*yn ddarostyngedig i uchafswm o*" yn y testun Cymraeg presennol o gategori 9(b) yn hytrach nag "*yn n ddarostyngedig i'r cyfanswm uchaf*" sydd i'w gael yng nghategorïau eraill y Tabl hwnnw. O ganlyniad, mae'n ymddangos bod y gwelliant testunol yn nhestun Cymraeg rheoliad 3(10)(c) yn methu â diwygio categori 9(b) oherwydd ei fod wedi'i ddisgrifio fel dim ond diwygio'r swm sy'n dilyn y geiriau penodol "*cyfanswm uchaf o*".

5. **Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 4(2)(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'r gwelliant yn disodli'r cyfeiriadau presennol at 2.5 hectar gyda chyfeiriadau newydd at "**1.2** hectares". Fodd bynnag, mae'r testun Cymraeg yn disodli'r cyfeiriadau presennol hynny gyda chyfeiriadau newydd at "**1.5** hectar". Yn ogystal, yn nhestun Cymraeg rheoliad 4(2)(a) nid yw'r ymadrodd "pob cyfeiriad at" wedi'i gynnwys yn y disgrifiad o'r gwelliannau er ei fod wedi'i gynnwys yn y gwelliant a wnaed gan reoliad 4(2)(b).

## Rhinweddau: craffu

Mae'r ddau bwynt canlynol wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

6. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddiweddaru ffioedd ceisiadau cynllunio ym mis Tachwedd 2024. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Memorandwm yn cynnwys linc i'r ddogfennaeth berthnasol ac yn cynnwys crynodeb o'r manylion yn adran 5 o'r Memorandwm.

7. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2025 wedi'i gynnwys yn adran 6 o'r Memorandwm. Ystyriwyd tri opsiwn o sylwedd:

- Opsiwn 1 – Peidio â gwneud dim (a chadw lefel ffi bresennol 2020);
- Opsiwn 2 – Cynyddu ffioedd i Adennill Costau Llawn ("**FCR**");
- Opsiwn 3 – Gweithredu cynnydd graddol mewn ffioedd i gyflawni FCR dros gyfnod o 3-5 mlynedd, ac eithrio ar gyfer aelwydydd mwy o faint.

I grynhoi, mae'r Memorandwm yn datgan fel a ganlyn:

> *7.1 Cydnabyddir nad yw bellach yn gynaliadwy i gael cynnydd o ganran benodol mewn ffioedd cynllunio o bryd i'w gilydd, gan gynnwys cadw'r anghydbwysedd presennol rhwng ceisiadau llai a cheisiadau deiliaid tai a cheisiadau mawr. Nid yw'r drefn ffioedd bresennol yn rhoi sylw i'r newidiadau a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â rhedeg gwasanaeth rheoli datblygu ar lefel leol. Nid yw Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu darparu adnoddau digonol ar gyfer eu gwasanaethau rheoli datblygu pan fydd y drefn ffioedd yn 'ar ei hôl hi' drwy'r amser ac, o ganlyniad, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn symud ymhellach oddi wrth adennill costau. Os caniateir i'r sefyllfa hon barhau, mae'n debygol o gael effaith andwyol ar ddatblygu a rheoli tir yng Nghymru, a'n gallu i wneud cynnydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol fel cenedl.* [...]

*7.3 Roedd cefnogaeth sylweddol ar draws pob sector i gynyddu ffioedd cynllunio o bob sector i gael strwythur ffioedd sy'n seiliedig ar Adennill Costau Llawn a diweddariadau blynyddol yn ôl chwyddiant (ar sail CPI) drwy gyhoeddi. Ar y sail hon, byddai Opsiynau 2 (Adennill Costau Llawn) a 3 (Llwybr Adennill Costau Llawn) yn cyflawni bwriad y polisi.*

*7.4 Dewiswyd Opsiwn 3 fel yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Y rheswm am hyn yw bod Opsiwn 3 yn caniatáu i ffioedd gael eu rhoi ar waith fesul cam. Mae'n sicrhau bod ffioedd ar gyfer ceisiadau cynllunio yn cael eu pennu ar sail Adennill Costau Llawn neu'n agos at hynny, ond yn gwneud hynny drwy ddull graddol. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r amserlen ar gyfer cyrraedd sefyllfa o Adennill Costau Llawn. Bydd awdurdodau'n Adennill Costau Llawn ar y rhan fwyaf o fathau o geisiadau o fewn 3 blynedd, tra byddant yn gwneud hynny ar y mathau sy'n weddill ymhen tua 5 mlynedd. Mae'r dull hwn yn cynnwys cynnydd cymedrol a chynyddrannol mewn ffioedd, gan symud ymlaen tuag at nod adennill costau llawn. Ei nod yw cydbwyso'r gwaith o sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu cynllunio ar gyfer y costau hyn a'u hamsugno, ar yr un pryd â chynnig rhyddhad ariannol i Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n cael trafferth.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer y pwyntiau technegol yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Medi 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2025**

**Pwyntiau Craffu Technegol 1, 2 a 3:** Er nad yw'r cyfeiriadau anghywir na'r anghysondebau yn y testunau Cymraeg a Saesneg yn effeithio ar yr ystyron o sylwedd, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwyntiau a gwneir y cywiriadau a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn cyn gwneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2015 (OS 2015/1522), disgrifir yr holl symiau sy'n ddarostyngedig i uchafswm fel rhai sy'n ddarostyngedig i'r "cyfanswm uchaf" ac eithrio paragraff 9(b) sy'n ddarostyngedig i "uchafswm". Mae i'r ddau ymadrodd yr un effaith gyfreithiol. Mae rheoliad 2ZA(4)(g) yn rhestru Rhan 2 o Atodlen 1 fel un sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad yn rheoliad 2ZA(2) bod rhaid i ddogfen ffioedd a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru nodi swm y ffioedd sy'n daladwy o dan reoliad 2ZA(4). Mae'r olaf yn cynnwys y symiau ffioedd a grybwyllir yn is-baragraff (g), h.y., y rhai yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2015, sy'n cynnwys swm y ffioedd a grybwyllir ym mharagraff 9(b) o'r tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1. Yr effaith yw bod yr holl symiau a grybwyllir yn rheoliad 2ZA(4), gan gynnwys y swm ym mharagraff 9(b) o'r tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn rheoliad 2ZA(1) a (2) i gyhoeddi swm y ffioedd ar wefan.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gellid gwneud y sefyllfa'n gliriach. Gwneir y cywiriadau a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn cyn gwneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt, ac er bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y nifer perthnasol o hectarau, gwneir y cywiriadau a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn cyn gwneud y Rheoliadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt ychwanegol ond nid yw'n ystyried bod angen diwygio'r drafftio cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud am fod diwygio'r ffigurau yn Gymraeg o 2.5 i 1.2, yn lle 2.5 i 1.5, hefyd yn golygu diwygio 'fwy na 2.5' i 'fwy nag 1.2'. Felly, ni ellir ychwanegu'r geiriau "pob cyfeiriad at" am resymau gramadegol.

*Mân gywiriadau i'w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau*

| **CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2025** | **The Town and Country Planning (Fees for Applications, Deemed Applications and Site Visits) (Wales) (Amendment) Regulations 2025** |
| Yn rheoliad 2(3), caiff rheoliad newydd 2ZA(2)(e) ei ddiwygio fel y rhoddir "yn is-baragraffau (a), (c) a (d)" yn lle "ym mharagraffau (a), (c) a (d)". | Yn rheoliad 2(3), caiff rheoliad newydd 2ZA(2)(e) ei ddiwygio fel y rhoddir "sub-paragraphs (a), (c) and (d)" yn lle "paragraphs (a), (c) and (d)". |
| Dd/G | Yn rheoliad 2(3), caiff rheoliad newydd 2ZA(4)(g) ei ddiwygio fel y rhoddir "regulation 15(1)(a) and (b) (fees for applications made under planning condition) and Part 2 of Schedule 1 (scale of fees in respect of applications made or deemed to be made)" yn lle "regulation 15(1)(a) and (b) (fees for applications made under planning condition)". |
| Caiff rheoliad 3(9)(e)(i) a (ii) ei ddiwygio fel y rhoddir "(i) ym mharagraff (a)" a "(ii) ym mharagraff (b)" yn lle "(i) yn is-baragraff (a)" a "(ii) yn is-baragraff (b)" yn y drefn honno. | Caiff rheoliad 3(9)(e)(i) a (ii) ei ddiwygio fel y rhoddir "(i) in paragraph (a)" a "(ii) in paragraph (b)" yn lle "(i) in sub-paragraph (a)" a "(ii) in sub-paragraph (b)" yn y drefn honno. |
| Bydd rheoliad 3(10)(c) yn cael ei ddiwygio fel bod "neu "uchafswm o"" yn cael ei fewnosod ar ôl y geiriau "cyfanswm uchaf o". | Bydd rheoliad 3(10)(c) yn cael ei ddiwygio fel bod "or a maximum" yn cael ei fewnosod ar ôl y geiriau "maximum in total". |
| Bydd rheoliad 4(2)(a) yn cael ei ddiwygio fel y rhoddir "1.2 hectar" yn lle "1.5 hectar". | Dd/G |
| Bydd mân faterion fel fformatio a gwallau teipograffyddol yn cael eu cywiro, a bydd mân newidiadau yn cael eu gwneud i'r nodyn esboniadol a'r troednodiadau, cyn gwneud y Rheoliadau. | |

**Y Pwyllgor Cyllid**

**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Drwy e-bost

29 Medi 2025

Annwyl Julie,

**Goblygiadau ariannol Bil Cynllunio (Cymru) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)**

Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol Bil Cynllunio (Cymru) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) (y Biliau) yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2025.

Rydym yn nodi fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn amcangyfrif y bydd y Biliau'n arwain at gostau trosiannol o gyfanswm o £247,000 dros y cyfnod asesu, sy'n cynnwys tua £74,100 i Lywodraeth Cymru, £45,300 i awdurdodau cynllunio, a £127,800 i ddiwydiannau preifat.

Er mwyn cynorthwyo ei waith craffu ar oblygiadau ariannol y Biliau, mae'r Pwyllgor yn gofyn a wnewch chi ddarparu rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

- Pa fethodoleg sydd wedi'i defnyddio i amcangyfrif y costau trosiannol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn enwedig mewn cysylltiad â staffio a'r costau i ddiwydiannau preifat?
- Pa fewnbwn sydd wedi bod gan awdurdodau cynllunio, ymgynghorwyr cynllunio a chwmnïau cyfreithiol preifat wrth gyfrifo'r costau a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?
- Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai "costau untro a chostau cyfle amser staff yw'r costau a nodwyd i Lywodraeth Cymru ac nid ydynt yn cynrychioli gwariant ychwanegol". Pa mor hyderus ydych chi ynghylch yr amcangyfrifon hyn?
- Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi unrhyw arbedion sy'n deillio o'r Biliau hyn. A oes modd i chi gadarnhau a oes asesiad o arbedion cost wedi'i wneud, a darparu dadansoddiad?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r

29 Medi 2025

Annwyl Jane,

Bil Troseddu a Phlismona

Yn ei gyfarfod ddydd Llun 22 Medi 2025, ystyriodd y Pwyllgor y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) a osodwyd gennych mewn perthynas â'r Bil Troseddu a Phlismona ar 2 Gorffennaf 2025.

Er mwyn helpu i lywio ei waith craffu, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn rhagor o wybodaeth ynghylch rhai materion sy'n deillio o'i ystyriaeth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn dydd Llun, 27 Hydref 2025.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Atodiad

1. Fel y dywedwch yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol, yn dilyn ymgysylltu swyddogol, rydych bellach yn fodlon â'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â darpariaethau I-LEAP y Bil (cymalau 127 i 129 yn y fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd). Rhowch ragor o wybodaeth ynghylch:

    a. pam nad oedd modd i chi argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r darpariaethau hyn ar adeg gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf;

    b. y trafodaethau a gynhaliwyd â Llywodraeth y DU yn ystod yr ymgysylltu a ddilynodd osod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf; a

    c. pham eich bod bellach yn fodlon â'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU.

2. Rydych hefyd yn datgan bod y dull gweithredu yn gwyro oddi wrth egwyddorion arferol Llywodraeth Cymru o ran pwerau cydredol. Eglurwch pam eich bod yn ystyried bod y gwyriad hwn yn briodol.

3. Yn yr un cyd-destun, rydych yn datgan yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol eich bod yn cydnabod safbwyntiau cyfiawn y DU o ran rhwymedigaethau rhyngwladol. Eglurwch ystyr bwriadedig y datganiad hwn o ystyried, yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf, eich bod yn cydnabod nad yw arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn fater a gadwyd yn ôl.

4. Mae egwyddorion Llywodraeth Cymru (y cyfeirir atynt uchod) yn nodi, yn yr achosion eithriadol pan fo Gweinidogion Cymru yn cytuno i greu pwerau cydredol, y dylai pwerau o'r fath fod yn ddarostyngedig i fecanweithiau cydsynio perthnasol. Cadarnhewch a geisiwyd mecanweithiau o'r fath ai peidio, ac os na wnaed, pam hynny.

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 6)**

**Y BIL IECHYD MEDDWL**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Iechyd Meddwl (“y Bil”) yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 6 Tachwedd 2024. Cynhaliwyd yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mai 2025 ac fe ddaeth y cyfnod Pwyllgor i ben ar 24 Mehefin 2025.

3. Cyhoeddwyd argraffiad newydd o’r Bil ar 25 Mehefin 2025 i ymgorffori’r gwelliannau a wnaed yn ystod y cyfnod Pwyllgor. Gellir dod o hyd iddo yn: Y Bil Iechyd Meddwl [Tŷ'r Arglwyddi].

**Amcanion polisi**

4. Mae amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn parhau fel y’u nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 20 Tachwedd 2024.

**Crynodeb o'r Bil**

5. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

6. Darparwyd crynodeb o’r Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, sy’n dal yn gywir.

7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU wedi parhau i fod mewn cyswllt rheolaidd ynghylch y gwaith o ddatblygu’r Bil, gan gynnwys gwelliannau gan Lywodraeth y DU sy’n effeithio ar Gymru.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Yn ogystal â’r cymalau yr argymhellais fod angen cydsyniad ar eu cyfer yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ac yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (“SLCMs”) blaenorol, rwyf o'r farn bod angen SLCM mewn perthynas â’r ddau welliant a ddisgrifir isod a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 16 Medi 2025.

9. Mae **Cymal 51** (diogelu data) yn egluro nad yw dyletswydd neu bŵer i brosesu gwybodaeth a osodir neu a roddir gan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (“y Ddeddf Iechyd Meddwl”) (fel y’i diwygiwyd gan y Bil) yn ei gwneud yn ofynnol, nac yn awdurdodi, prosesu gwybodaeth a fyddai’n torri deddfwriaeth diogelu data.

10. Byddai'r gwelliant hwn gan y llywodraeth (h.y. gwelliant Llywodraeth y DU 34) yn dileu cymal 51 o'r Bil, ar y sail nad yw'r cymal bellach yn angenrheidiol gan ei fod yn cael ei wrth-wneud gan yr ystyriaeth diogelu data cyffredinol yn adran 183A o Ddeddf Diogelu Data 2018, a fewnosodwyd gan adran 106(2) o Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 ac a ddaeth i rym ar 20 Awst 2025.

11. **Mae Atodlen 2** i'r Bil yn mewnosod adran 30B newydd yn y Ddeddf Iechyd Meddwl (pŵer llys i derfynu penodiad person enwebedig). Mae adran 30B newydd yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir gwneud gorchymyn llys sy'n terfynu penodiad person enwebedig ar gyfer claf.

12. Byddai'r gwelliant hwn (h.y. gwelliant Llywodraeth y DU 35) i Atodlen 2 yn cyfyngu cwmpas y diffiniad o glaf (“patient”) yn adran 30B(7) newydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl at ddibenion adran 30B. Y rheswm dros y gwelliant yw cywiro'r diffiniad cyfredol yn y ddarpariaeth honno (h.y. “*In this section “patient” includes any person by or for whom a nominated person is appointed*”) (sy'n mynd yn rhy eang yn anfwriadol gan y byddai mewn rhai achosion yn cwmpasu gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy).

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

13. Adeg ei gyflwyno, roedd gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad i gymal 51(a oedd yn gymal 50 adeg ei gyflwyno). Nodais yn fy LCM cychwynnol mai barn Llywodraeth y DU oedd nad oedd angen cydsyniad ar gyfer cymal 51 ond yn fy marn i, fod cymal 51 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i fater datganoledig sef iechyd y cyhoedd.

14. Ceisiwyd cydsyniad y Senedd i'w gynnwys yn y Bil, ac rwyf o'r farn y dylid ceisio cydsyniad Senedd yn awr hefyd mewn perthynas â'r gwelliant i ddileu cymal 51 o'r Bil. Mae Llywodraeth y DU o'r farn, er hynny, nad oes angen cydsyniad mewn perthynas â'r gwelliant hwn.

15. O ran y gwelliant i Atodlen 2, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad. Mae'r gwelliant yn rhoi sylw i fater datganoledig sef polisi iechyd.

16. Yn unol â Rheol Sefydlog 29 felly, mae’n ofynnol cael cydsyniad y Senedd.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Iechyd Meddwl**

17. Yn fy memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol a'r memoranda atodol dilynol, nodais fy rhesymau dros ddod i'r casgliad y dylai'r darpariaethau hyn ar gyfer Cymru gael eu gwneud drwy'r Bil Iechyd Meddwl. Mae'r rhesymau hyn yn dal yn berthnasol yn fy marn i. Rwyf yn eu hailddatgan isod, er hwylustod cyfeirio.

18. Rwyf yn cefnogi'r diwygiadau hyn a fydd yn moderneiddio'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl i roi mwy o ddewis, ymreolaeth, hawliau a chymorth gwell i gleifion, yn ogystal â sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol cyfnod eu triniaeth. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mesurau i wella gofal a chymorth i bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig, gan leihau'r ddibyniaeth ar ofal mewn ysbytai.

19. Ceir llawer iawn o ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir ar y ddwy ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Byddai peidio â gwneud darpariaethau yn y Bil hwn yn creu risg o fwy o wahaniaethau rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yn y ddwy wlad.

20. At hynny, mae'r cyfnodau cadw a'r hawliau i wneud cais i'r tribiwnlys yn fesurau diogelu allweddol o ran amddiffyn hawliau unigolion sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Rwyf am achub ar y cyfle hwn felly i roi'r newidiadau hynny ar waith yma yng Nghymru yn unol â dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran gwella hawliau unigolion yng Nghymru.

21. Er bod y Bil hwn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, mae'n gwneud darpariaeth hefyd o ran materion a gedwir yn ôl. Am y rheswm hwnnw, rwyf o'r farn bod deddfu drwy Fil gan y DU yn cynnig y dull gweithredu mwyaf cydlynol ar gyfer y darpariaethau a gyflwynir yn y ddeddfwriaeth hon.

**Goblygiadau ariannol**

22. Mae goblygiadau ariannol y Bil hwn yn parhau fel y'u nodwyd yn fy memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol. Mae'r asesiad effaith a osodwyd ar y cyd â'r Bil (yn Y Bil Iechyd Meddwl - cyhoeddiadau Tŷ'r Arglwyddi – Biliau Seneddol – Senedd y DU) yn cynnwys costau i Gymru a amcangyfrifwyd drwy gymhwyso'r costau cynnydd ar gyfer Lloegr. Mae costau ac arbedion costau a amcangyfrifwyd ar gyfer Lloegr wedi'u codi, gydag effeithiau yn dibynnu ar y prosesau y mae'r diwygiadau yn gysylltiedig â hwy. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau (Cymru a Lloegr) ar gyfer y cyfnod arfarnu 20 mlynedd o hyd yn £5.7 biliwn.

23. Bydd y gwaith gweithredu yn cael ei gyflwyno'n raddol ac ni rennir y costau yn gyfartal felly dros y cyfnod o 20 mlynedd. Yn yr asesiad

effaith, amcangyfrifir bod cyfanswm y costau i Gymru dros y cyfnod o 20 mlynedd yn £425 miliwn ar draws y sectorau iechyd, tai a gofal cymdeithasol.

24. Os bydd y Senedd yn cydsynio i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol dilynol gan gynnwys hwn, byddai hyn ar sail cyllid canlyniadol gan y DU i gefnogi'r gwaith gweithredu fel yr amlinellir yn yr asesiad effaith i Senedd y DU.

**Casgliad**

25. Yn fy marn i, mae'n briodol o hyd ymdrin â'r darpariaethau a gynhwysir yn y Bil Iechyd Meddwl mewn Bil gan y DU gan ei fod yn sicrhau system gydlynol o hawliau ledled Cymru a Lloegr, yn unol â'n hymrwymiad i wella hawliau unigolion yng Nghymru, ac yn ategu ein hamcanion polisi o ran strategaethau iechyd meddwl newydd.

26. Rwyf yn argymell, felly, fod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

**Sarah Murphy AS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**30 Medi 2025**

Eitem 10.4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru er mwyn rhoi mesurau ychwanegol ar waith i warchod afancod Ewropeaidd (*ffibr castor)* yng Nghymru** |
| **DYDDIAD** | **02 Hydref 2025** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |

Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chefnogaeth i ailgyflwyno afancod Ewropeaidd (*ffibr castor*) yng Nghymru. Ers hynny, rwyf wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a rhanddeiliaid i fwrw ymlaen â'r fenter bwysig hon.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi y byddwn yn ymestyn mesurau cyfreithiol i warchod afancod Ewropeaidd yng Nghymru. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod afancod yn cael eu cydnabod fel Rhywogaeth Frodorol ac yn cael eu gwarchod yn gyfreithiol fel Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop gan ei gwneud yn drosedd i'w niweidio yn fwriadol neu niweidio eu cynefinoedd. Mae hyn yn dilyn ymarfer ymgysylltu wedi'i dargedu i gasglu barn ar ddiwygiadau arfaethedig i'r fframwaith deddfwriaethol. Hoffwn ddiolch i bawb a ymgysylltodd â'r gwaith am ddarparu golwg gytbwys o'r manteision a'r pryderon. Rwy'n falch o gadarnhau, ar ôl ystyried yr ymatebion, fy mod wedi cytuno i symud ymlaen â'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a fydd yn dod â Chymru yn gydnaws â'r drefn yn Lloegr a'r Alban.

Mae tystiolaeth gadarn yn nodi manteision ecolegol ailgyflwyno afancod, a thystiolaeth ddiweddar yn dangos bod argaeau afancod yn helpu i ddal gwaddodion a hidlo llygryddion, gan leihau llwythi maethynnau fel nitrogen a ffosfforws o ddŵr ffo amaethyddol yn sylweddol. Mae'r dull naturiol hwn o liniaru maethynnau yn cefnogi afonydd glanach ac yn cyfrannu at ein nodau ehangach ar gyfer gwella ansawdd dŵr a gwydnwch ecosystemau yng Nghymru.

Rwy'n cydnabod y pryderon cyfreithlon ymhlith tirfeddianwyr, ffermwyr a'r gymuned bysgota a bydd angen ystyried a rheoli'r broses o ailgyflwyno afancod i'r gwyllt yn ofalus. Bydd CNC

yn cadw'r gofyniad am drwydded ar gyfer unrhyw anifeiliaid sy'n cael eu rhyddhau i'r gwyllt, a bydd yr awdurdod ganddynt i gyhoeddi trwyddedau rheoli, lle bo angen, i liniaru effeithiau andwyol.

Er bod y manteision ecolegol yn glir, mae'n bwysig ein bod yn cydbwyso'r rhain â'r pryderon ynghylch effeithiau posibl ar rywogaethau, defnydd tir a systemau dŵr. Rwy'n ymrwymedig i ddull gweithredu cydweithredol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac rwy'n falch o gadarnhau ein bod wedi sefydlu Fforwm Afancod Cymru i helpu i reoli'r materion hyn, a fydd yn cyfarfod am y tro cyntaf ym mis Tachwedd.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'n hymateb ehangach i'r argyfwng natur a'r angen brys i atal colli bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae ailgyflwyno afancod yn enghraifft ddiriaethol o sut y gallwn adfer swyddogaeth ecolegol a gwydnwch yn ein tirweddau. Mae'n cyd-fynd â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'n hymrwymiadau rhyngwladol i wrthdroi dirywiad rhywogaethau a gwella iechyd ecosystemau. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn greu dyfodol lle mae natur yn ffynnu, a chymunedau'n elwa o'r gwasanaethau y mae ecosystemau iach yn eu darparu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 a'r canllawiau statudol cysylltiedig** |
| **DYDDIAD** | **02 Hydref 2025** |
| **GAN** | **Lynne Neagle, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg** |

Mae'n bleser gennyf gadarnhau fy mod heddiw wedi cyhoeddi'r Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Fwyta'n Iach mewn Ysgolion. Daeth dros 3,000 o ymatebion i law yn sgil yr ymgynghoriad 10 wythnos, a gynhaliwyd rhwng 20 Mai a 29 Gorffennaf 2025, gan ddysgwyr, rhieni, addysgwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, yn dangos diddordeb cryf ac ymrwymiad cyffredin i wella safonau bwyd ysgolion yng Nghymru. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb.

Ein huchelgais o hyd yw helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu arferion bwyta iach, sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd iachach yn ystod oriau ysgol, a'u bod yn gwneud dewisiadau bwyd iach. Rydym yn gwybod bod maeth da yn helpu plant i berfformio'n well a chyrraedd eu potensial llawn.

Datblygwyd ein cynigion yn ofalus ac ar y cyd, i gefnogi bwyd a diod iachach mewn ysgolion, gwella'r gallu i ganolbwyntio a lefelau lles, cefnogi gwell canlyniadau addysg, lleihau anghydraddoldebau iechyd a helpu i ddatblygu arferion bwyta iach am oes. Mae'r gefnogaeth eang i'r mwyafrif o'r cynigion a gyhoeddwyd gennym yn galondid i mi felly, gan gynnwys cefnogaeth ymhlith y plant eu hunain a'u rhieni.

Rwy'n ymrwymedig i barhau i gydweithio ac ystyried y canfyddiadau hyn yn ofalus cyn i'r set derfynol o reoliadau ar gyfer ysgolion cynradd a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir gael eu gosod. Bydd hyn yn ein helpu i daro'r cydbwysedd cywir rhwng y canlyniadau yr ydym yn gobeithio eu cyflawni, gweithredu'n ymarferol ar lawr gwlad, a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn parhau i fwynhau prydau ysgol.

Y bwriad yw gosod y rheoliadau y tymor Seneddol hwn, a byddaf yn cyfathrebu ymhellach ar y mater bryd hynny. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad, ac edrychwn ymlaen at barhau â'r gwaith pwysig hwn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru.

Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael yma ac ar wefan Llywodraeth Cymru. Diolch eto i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Mae eich lleisiau yn helpu i lywio dyfodol bwyd ysgol yng Nghymru. Gyda'n gilydd, rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer bwyd ysgol iachach i helpu plant i ffynnu a chyrraedd eu potensial.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

2 Hydref 2025

Annwyl Mike

Yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, cytunais i ysgrifennu at y Pwyllgor i roi rhagor o wybodaeth ynghylch dau fater. Y mater cyntaf yw strwythur cyfarfodydd sy'n ymwneud â chyfiawnder - gweler Atodiad A am ragor o fanylion.

Mae'r ail fater y bwriadaf ysgrifennu yn ei gylch yn ymwneud â chyfarfodydd rhynglywodraethol. Fel y nodais gerbron y Pwyllgor, yn fy marn i, caiff strwythurau rhynglywodraethol eu defnyddio ar y cyfan yn fwy rheolaidd ac yn fwy effeithiol nag o'r blaen. Ers mis Medi 2024, mae mwy na thri deg o gyfarfodydd Cysylltiadau Rhynglywodraethol wedi'u cynnal, gan gynnwys yn y ddwy haen uchaf, sy'n adlewyrchu patrwm wedi'i gryfhau a mwy rheolaidd o ymwneud â Llywodraeth y DU.

O ran grwpiau rhyngweinidogol ar lefel portffolios penodol, gan ystyried y trafodaethau parhaus sydd ar y gweill â'r UE, hoffem weld cyfarfodydd o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd. Byddai hynny'n arwain at wella'r ymwneud rhwng y DU a Llywodraethau Datganoledig mewn maes sydd o ddiddordeb clir i'r ddwy ochr.

Hoffwn nodi nad yw cysylltiadau rhynglywodraethol da yn ymwneud â dim ond nifer y cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal - dylid eu mesur o ran ansawdd y gweithgarwch ymgysylltu ac nid dim ond y swm ohono. Rhaid i'r llywodraethau sicrhau ein bod yn dod at ein gilydd i drafod y pethau cywir, ar yr adegau cywir. Rydym o'r farn o hyd y gall yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol sicrhau'r gweithdrefnau angenrheidiol i gynnal hynny.

Mae bob amser lle i wella, ac yn fy marn i, byddai trefnu yn gyson y cyfarfodydd hyn mor bell ymlaen llaw â phosibl yn arwain at fuddion pellach. Byddai hyn o gymorth mawr o ran

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwaith cynllunio ymlaen llaw a sganio’r gorwel, ac yn ein helpu ni i ddarparu hysbysiadau prydlon i bwyllgorau fel sy’n ofynnol yn y Cytundeb Rhyngsefydliadol â’r Senedd.

Mae’r adolygiad o’r strwythurau cysylltiadau rhynglywodraethol, a gaiff ei gydgysylltu gan Ysgrifenyddiaeth Annibynnol ar gyfer Cysylltiadau Rhynglywodraethol, gyda chymorth swyddogion ar draws pob un o’r pedair llywodraeth, yn edrych ar y strwythurau cysylltiadau rhynglywodraethol presennol, gan gynnwys y grwpiau rhyngweinidogol a nodir yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, i benderfynu a ydynt yn addas i’r diben a nodi gwelliannau posibl.  Rhagwelir y bydd canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwn yn cael eu trafod yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol tua diwedd 2025.

Yn olaf, yn ddiweddar, cefais gyfarfod cadarnhaol â’r cyn Arglwydd Ganghellor lle cytunwyd i wneud cynnydd cyflym ar ymrwymiadau Llywodraeth y DU ynglŷn ag ystyried datganoli cyfiawnder ieuenctid a’r gwasanaeth prawf.  Wrth gwrs, mae’r rhain yn feysydd yr argymhellodd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer datganoli cynnar, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i’r argymhellion a wnaed gan y Comisiwn. Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig yn diweddaru ar y gweithgaredd hwn ar 7 Awst a byddaf yn parhau i rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am gynnydd ynghylch y mater hwn.

Gobeithiaf fod y llythyr hwn o ddefnydd i’r Pwyllgor.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Atodiad A - Ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU**

Gofynnodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad am wybodaeth ynglŷn â’r cyfarfodydd sy’n cael eu cynnal rhwng Gweinidogion Cymru a Llywodraeth y DU ar faterion cyfiawnder. Mae’r tabl cyntaf yn crynhoi’r prif fforymau rheolaidd lle y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cyfarfod i drafod materion cyfiawnder. Noder, caiff rhai o’r rhain eu cadeirio gan Weinidogion ond caiff llawer ohonynt eu cynnal ar lefel swyddogion. Mae’r ail dabl yn rhoi trosolwg o ymrwymiadau gweinidogol rheolaidd.

**Tabl 1 - Byrddau a Grwpiau**

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder | Mae’r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder yn hwyluso gweithgarwch ymgysylltu ffurfiol a rheolaidd rhwng gweinidogion adrannol o’r pedair llywodraeth ar feysydd o ddiddordeb cyffredin sy’n ymwneud â chyfiawnder. Mae’r Grŵp yn galluogi prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwybodaeth rhwng gweinyddiaethau a gall hefyd weithredu fel fforwm ar gyfer datrys anghytundebau pan nad yw camau unioni wedi’u cyflawni ar lefel swyddogion. | Mae aelodaeth o’r Grŵp yn cynnwys o leiaf un gweinidog o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sydd â’r cyfrifoldebau perthnasol o fewn eu portffolios.<br>Bydd un Gweinidog o bob un o Swyddfeydd y Gwledydd hefyd yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol.<br>Yn ddibynnol ar bwnc y drafodaeth ac yn ôl yr angen, mae’n bosibl y bydd Gweinidogion eraill yn cael eu gwahodd, a all gynnwys Gweinidogion sydd ag arbenigedd mewn meysydd y tu hwnt i gyfiawnder sy’n berthnasol i’r drafodaeth ar bwnc penodol.<br>Gall y Grŵp gytuno i wahodd rhanddeiliaid anllywodraethol megis cynrychiolwyr diwydiant neu gyrff anllywodraethol mewn rôl gynghori neu ymgynghorol. | Tair gwaith y flwyddyn |
| Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo | Mae’r Grŵp Rhyngweinidogol hwn yn sicrhau rhyngweithio ffurfiol a rheolaidd rhwng y Swyddfa Gartref a llywodraethau datganoledig y DU ar faterion yn ymwneud â diogelwch a mudo. | Yr Ysgrifennydd Cartref a Gweinidog Tŷ’r Arglwyddi sy’n cynrychioli Llywodraeth y DU, a Gweinidogion perthnasol ar gyfer y llywodraethau datganoledig. Gall y gynrychiolaeth o Weinidogion amrywio ym | Tair gwaith y flwyddyn |

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| | Gweler Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo ar gyfer y cylch gwaith llawn. | mhob cyfarfod a bydd yn cael ei llywio gan yr agenda. Yn ddibynnol ar bwnc y drafodaeth ac yn ôl yr angen, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion eraill yn cael eu gwahodd. | |
| Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru | Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn dod â sefydliadau a phartneriaid cyfiawnder troseddol at ei gilydd i fynd i'r afael â heriau trawsbynciol. Mae'r Bwrdd yn ymgymryd â'r swyddogaethau a ganlyn:<br><br>• Darparu arweiniad pendant ac ar y cyd wrth gyflawni Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru<br>• Sicrhau gofod i ddod â'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yng Nghymru ynghyd ag asiantaethau datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli, i gytuno ar y materion cyfiawnder troseddol allweddol y mae angen eu datrys ar gyfer dioddefwyr, tystion neu bobl sydd wedi troseddu ledled Cymru.<br>• Llunio a darparu rhaglen waith flynyddol sy'n cyflawni'r newid y mae ei angen ar draws y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.<br>• Cyhoeddi adroddiad blynyddol i dystiolaethu gwaith y Bwrdd a chynyddu hyder y cyhoedd o ran y gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r system gyfiawnder yng Nghymru (gellir dod o hyd i'r adroddiadau blynyddol ar wefan Llywodraeth y DU)<br>• Gwella'r cyswllt rhwng y Byrddau Cyfiawnder | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF<br><br>Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br><br>Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru<br><br>Prif Gwnstabliaid Cymru<br><br>Swyddogion Llywodraeth Cymru<br><br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br><br>Cyrff y sector gwirfoddol<br><br>Comisiynydd Dioddefwyr<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Uned Gyswllt yr Heddlu<br><br>Y Swyddfa Gartref<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Yr Uned Atal Trais | Chwarterol |

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| | Troseddol Lleol yng Nghymru a rhannu arferion da, lleihau dyblygu gwaith ac uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder<br>• Galluogi'r strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol a chydweithredol rhwng partneriaid datganoledig a phartneriaid nad ydynt wedi'u datganoli ar faterion systemig a pholisi cyfiawnder troseddol<br>• Casglu tystiolaeth ansoddol a meintiol i fonitro effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru mewn modd effeithiol<br>• Cymhwyso dull gweithredu a arweinir gan dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran ymarfer, polisi a chomisiynu.<br>• Hyrwyddo a sicrhau gwell cysondeb a chysylltedd ledled y system cyfiawnder teuluol, sifil a throseddol. | | |
| Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru | Mae Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn gweithredu fel pont rhwng Plismona yng Nghymru a'r ystod eang o bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus datganoledig a'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli y mae'r gwasanaeth heddlu yn ymwneud â nhw yng Nghymru.<br>Diben y Bwrdd yw gwneud y canlynol:<br>• Cydgysylltu'r cydweithio rhwng plismona yng Nghymru (a gynrychiolir gan y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r pedwar | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (Cadeirydd)<br><br>Gweinidogion neu Ysgrifenyddion Cabinet eraill fel y bo'n briodol<br><br>Is-Adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru<br><br>Prif Weithredwr GIG Cymru<br><br>Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru | Chwarterol |

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| | Prif Gwnstabl), Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a gwasanaethau cyhoeddus a gedwir yn ôl, er mwyn hyrwyddo diogelwch cymunedol a darparu gwasanaethau.<br>• Cytuno ar ddatrysiadau ar y cyd i heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a gwasanaethau cyhoeddus nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru, gyda chymorth rhaglen waith sy'n cynnwys amcanion clir wedi'u cydberchnogi gan ganolbwyntio ar ddatrys problemau a gweithredu ar y cyd i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni. Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r rhaglen waith hon wedi'u nodi yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato yn flaenorol.<br>• Sicrhau bod y rhyngwyneb rhwng plismona a meysydd datganoledig yn gweithredu'n effeithiol yng Nghymru, a bod gan Lywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid ddealltwriaeth glir o'u blaenoriaethau a'u gweithgarwch eu hunain mewn ffordd sy'n hyrwyddo diogelwch cymunedol ledled Cymru.<br>• Ar y cyd, ystyried cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru, neu | Prif Gwnstabliaid Cymru<br><br>Uned Gyswllt yr Heddlu<br><br>Y Swyddfa Gartref<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru<br><br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | |

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| | risgiau sy'n effeithio arnynt, gan weithio fel Bwrdd i fynd i'r afael â'r rhain a darparu'r datrysiadau gorau sydd ar gael i gymunedau Cymru<br>• Galluogi Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid i nodi goblygiadau rhaglenni deddfwriaethol a phrosesau cyllidebol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan roi dull gweithredu ar y cyd ar waith ar gyfer cynllunio a chyflawni ar lefel strategol a gweithredol sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r cyhoedd yng Nghymru. | | |
| Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) | Mae'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol yn darparu goruchwyliaeth gydweithredol er mwyn annog cynnydd o ran Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-26 a'i chyflawni.<br><br>Mae'r Bwrdd yn craffu ar weithgarwch Bwrdd Rhaglen Glasbrint Trais a Cham-drin a'r chwe ffrwd gwaith cysylltiedig i sicrhau atebolrwydd.<br>Mae'r Bwrdd hefyd yn darparu fforwm ar gyfer rhannu penderfyniadau ac ymrwymiadau. Ymhlith yr aelodau y mae uwch gynrychiolwyr ac arweinwyr strategol o bob sector a rhanbarth ledled Cymru.<br><br>Gweler Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (cyd-gadeirydd)<br><br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (cyd-gadeirydd)<br><br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br><br>BAWSO<br><br>New Pathways<br><br>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru<br><br>Comisiynydd Cam-drin Domestig | Chwarterol |

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| | Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer y cylch gwaith llawn. | Y Comisiynydd Pobl Hŷn<br><br>Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>GIG Cymru<br><br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br><br>Swyddogion Llywodraeth Cymru<br><br>Cyngor Ffoaduriaid Cymru | |
| Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru | Mae Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn gorff wedi'i gynnull ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr. Caiff ei sefydlu gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr o dan ei Gynllun Dirprwyo a chan Lywodraeth Cymru.<br>Diben y Panel yw dwyn ynghyd ar lefel genedlaethol bartneriaid strategol sy'n chwarae rhan yn y broses o weithredu'r system cyfiawnder ieuenctid ac atal troseddu gan blant er mwyn cynnal goruchwyliaeth effeithiol ac arweinyddiaeth ar y cyd o'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.  Mae hyn yn cynnwys y canlynol:<br>• Rhannu tystiolaeth a dealltwriaeth ynghylch perfformiad ac ymarfer;<br>• Dadansoddi trosolwg lefel uchel o berfformiad y system gyfan, gan ystyried sut y mae pob rhan o'r system yn perfformio, gan nodi cyfleoedd i'w gwella;<br>• Darparu camau a chyngor pendant ac effeithiol i gyrff | Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru (cyd-gadeirydd)<br><br>Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (cyd-gadeirydd)<br><br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br><br>Cynrychiolwyr Byrddau Iechyd<br><br>Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF Cymru<br><br>Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (SOLACE) Cymru<br><br>Llysoedd Ynadon Ieuenctid yng Nghymru<br><br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br><br>Cynrychiolydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu<br><br>Y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa<br><br>Yr Uned Atal Trais | Chwarterol |

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| | cyfiawnder a sefydliadau perthnasol eraill sy'n hyrwyddo canlyniadau gwell i blant a'u helpu tuag at fywydau cyflawn heb droseddu<br>• Monitro'r camau gweithredu a roddir ar waith mewn ymateb i gyngor y Panel, dal cyfranogwyr i gyfrif am eu gweithredoedd a dathlu cynnydd a llwyddiant.<br>• Gweithredu fel grŵp cyfeirio strategol ar gyfer rhaglenni newid sy'n effeithio ar y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a gwaith ar ddatganoli cyfiawnder ieuenctid i Gymru. | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Comisiynydd Plant Cymru<br><br>Cynrychiolydd Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid<br><br>Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Arweinydd Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant<br><br>Uned Gyswllt yr Heddlu<br><br>Canolfan Troseddu a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru | |
| Bwrdd Menywod mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan | Mae Bwrdd Menywod mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan wedi'i sefydlu fel y prif grŵp strategol ar gyfer materion sy'n ymwneud â menywod sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, neu sy'n wynebu risg o hynny.<br>Ym mis Ebrill 2025, symudodd Glasbrint Cyfiawnder Menywod y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru i gam cyflawni newydd, gan adeiladu ar y fframwaith a'r egwyddorion sydd eisoes yn bodoli er mwyn parhau i ymgorffori arferion gorau yn y system gyfiawnder ar gyfer menywod yng Nghymru.<br><br>Mae'r Bwrdd wedi'i gydnabod fel y fforwm priodol i ddarparu cyfeiriad strategol i bartneriaid cyfiawnder troseddol a chyfiawnder cymdeithasol er mwyn helpu i sicrhau bod | Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru (cyd-gadeirydd)<br><br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (cyd-gadeirydd)<br><br>Llywodraeth Cymru – Atal Digartrefedd<br><br>Llywodraeth Cymru – Iechyd<br><br>Llywodraeth Cymru – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<br><br>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Plismona yng Nghymru<br><br>Gwasanaeth Erlyn y Goron<br><br>Y Swyddfa Gartref | Chwarterol |

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| | blaenoriaethau ac egwyddorion strategol y Glasbrint yn cael eu cyflawni'n effeithiol, yn barhaus ac o fewn polisi ehangach sy'n ymwneud â menywod yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>GIG Cymru<br><br>Sefydliadau Rhwydwaith Cymunedol (Clinks, Cyfiawnder Cymunedol Cymru)<br><br>Y Rhaglen Gwrth-Hiliaeth<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Tîm Cenedlaethol Menywod<br><br>Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid | |
| Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru | Diben Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru yw arwain, goruchwylio a rhoi cyfeiriad i raglen waith ar y cyd sy'n ceisio sicrhau bod arweinyddiaeth ar y cyd effeithiol yn cael ei darparu i ategu gweithio mewn partneriaeth leol er mwyn mynd i'r afael â diogelwch cymunedol a fydd yn ei dro yn cynnal cymunedau diogel, cryf a mwy hyderus. Mae'r Bwrdd hefyd yn darparu llywodraethiant ar gyfer Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.<br><br>Gellir dod o hyd i'r cylch gwaith llawn a'r rhestr o flaenoriaethau ar wefan Cymunedau Mwy Diogel. | Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru (cyd-gadeirydd)<br><br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (cyd-gadeirydd)<br><br>Prif Gwnstabliaid Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (SOLACE) Cymru<br><br>Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel<br><br>Is-Adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru<br><br>Y Gwasanaethau Tân ac Achub<br><br>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF | Chwarterol |

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| | | Cyfiawnder Cymunedol Cymru<br><br>Swyddogion Diogelwch Cymunedol<br><br>Yr Uned Atal Trais<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | |
| Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) Cymru | Mae Bwrdd IOM Cymru yn adrodd i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan a chaiff ei arwain gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru a Phlismona yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth o ystod eang o bartneriaid cyfiawnder troseddol a chyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae ganddo gyfrifoldeb am gynorthwyo a hwyluso'r gwaith o ddatblygu gweithdrefnau rheoli integredig troseddwyr a'u cyflawni ledled Cymru, gan gynnwys goruchwylio rhaglen waith IOM Cymru. | Y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru (cyd-gadeirydd)<br><br>Plismona yng Nghymru (cyd-gadeirydd)<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br><br>Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru<br><br>Y Trydydd Sector | Chwarterol |
| Y Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru | Mae'r Grŵp yn dod ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghyd i drafod materion cyfiawnder sy'n dod i'r amlwg a sicrhau bod cydgysylltu ar waith ar draws llywodraethau. Mae'r cylch gwaith wrthi'n cael ei adolygu ar ôl seibiant o 10 mis. | Llywodraeth Cymru<br><br>Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Y Swyddfa Gartref | Dwy waith y flwyddyn |
| Hwb Doeth | Diben Hwb Doeth yw dod â gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau ynghyd i annog datblygiad ymarfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Defnyddir y fforwm i drafod a rhannu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid er mwyn sicrhau | Llywodraeth Cymru<br><br>Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br><br>Cynrychiolaeth ranbarthol o Brifysgolion Cymru<br><br>Cynrychiolaeth ranbarthol o Reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru a'r ystad ddiogel | Chwarterol |

| Bwrdd / Grŵp | Diben / Cylch Gwaith | Aelodau | Amlder |
|---|---|---|---|
| | eu bod yn gallu datblygu arferion a'u gwella.<br><br>Ceir hefyd sawl is-grŵp, gan gynnwys pedwar grŵp rhanbarthol, sy'n cyfarfod bob chwarter. | | |

**Tabl 2 - Cyfarfodydd gweinidogol rheolaidd**

Mae'r tabl isod yn manylu ar y cyfarfodydd rheolaidd a sefydlwyd rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU i drafod materion yn ymwneud â chyfiawnder cyn yr ad-drefnu gweinidogol diweddar Llywodraeth y DU. Lle mae newid gweinidog wedi bod, disgwylir y bydd trefniadau tebyg yn cael eu rhoi ar waith gyda gweinidogion newydd maes o law. Yn ogystal â hyn, trefnir cyfarfodydd fel y bo angen, fel y cyfarfod diweddar a gynhaliwyd rhwng y Dirprwy Brif Weinidog a'r Arglwydd Ganghellor. Wrth gwrs, bydd materion cyfiawnder hefyd yn cael eu codi ar adegau mewn cyfarfodydd â Gweinidogion y DU sydd â rolau trawsbynciol fel y Prif Weinidog, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn neu Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

| Cyfarfod | Diben | Amlder |
|---|---|---|
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a Syr Nic Dakin | Trafod cydweithio o dan y setliad presennol gan gynnwys gweithgarwch sydd ar waith yn unol â'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid. | Ymwneud rheolaidd (yn ôl yr angen) |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Arglwydd Timpson | Trafod materion ar draws y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a chynnydd ar faterion fel dadansoddi data a'r ganolfan breswyl i fenywod yng Nghymru. | Ymwneud rheolaidd (yn ôl yr angen) |
| Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni a'r Arglwydd Ponsonby | Trafod materion cyfansoddiadol a chyfiawnder er enghraifft llysoedd, tribiwnlysoedd, gwasanaethau cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder. | Bob deufis (bob yn ail fis) ac eithrio toriad yr haf. |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF | Trafod materion ar draws y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a chynnydd ar faterion fel dadansoddi data a'r ganolfan breswyl i fenywod yng Nghymru. | Ymwneud rheolaidd (yn ôl yr angen) |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Comisiynydd arweiniol ar gyfer yr Heddlu a Throseddu | Trafod materion sy'n effeithio ar blismona yng Nghymru | Misol |

| Cyfarfod | Diben | Amlder |
|---|---|---|
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ac aelod o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru | Mae'r aelod o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfiawnder ieuenctid. | Dwywaith y flwyddyn |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Gweinidog Gwladol dros Blismona, Tân ac Atal Troseddu | Trafod materion ar draws portffolios neu unrhyw bryderon cyfredol/gwleidyddol, ee Diwygio Tirwedd yr Heddlu, Menter Strydoedd Mwy Diogel. | Chwarterol |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon